

COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Cofnodion y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd yng Nghaerdydd a dros y rhwydwaith fideo am 11.00 – 12.45 ar 22 Chwefror 2019

Yn bresennol:

Aelodau: William Callaway (Cadeirydd)
Peter Curran
Dr Haydn E Edwards (Cadeirydd y Coleg)
Gareth Eyres
Dr Rhodri Llwyd Morgan

Archwilwyr: Carol Warburton, Baldwins (Archwilwyr mewnol)

Swyddogion: Dr Ioan Matthews, Prif Weithredwr
Catherine Rees, Ysgrifennydd y Coleg
Dr Dafydd Trystan, Cofrestrydd
Dr Dylan Phillips, Uwch Reolwr Academaidd
Suzanne Lewis, Rheolwr Gweithredu
Nia Brown, Swyddog Datblygu

Ymddiheuriadau: Yr Athro Iwan Davies

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
1. Croeso ac ymddiheuriadau	1.1 Croesawyd yr aelodau i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. 1.2 Nodwyd ymddiheuriadau, fel uchod. 1.3 Gan mai dyma fyddai cyfarfod olaf yr Athro Iwan Davies, diolchwyd iddo am ei wasanaeth a chyingor doeth yn enwedig wrth weithredu newidiadau i lywodraethiant y Coleg.		
2. Datganiadau o ddiddordeb	2.1 Datganodd William Callaway mai cwmni TIAA yw Archwilwyr Mewnol Prifysgol De Cymru.		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	2.2 Datganodd Peter Curran, mai cwmni TIAA yw Archwilwyr Mewnol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd De Cymru.		
3. Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a Materion yn Codi	<p>3.1 Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol, a gynhaliwyd ar 24 Hydref 2018, fel cofnod cywir.</p> <p>3.2 Adroddwyd bod y pwyntiau gweithredu a nodwyd yn y cofnodion naill ai wedi'u gwireddu neu fod yr eitem yn ymddangos ar yr agenda.</p> <p>3.3 <u>Eitem 3.3 – Trothwyon OJEU</u> Adroddodd yr Ysgrifennydd bod trothwyon OJEU dros £181,000 a nad oes un tendr wedi bod gan y Coleg dros y trothwy hwn.</p> <p>3.4 <u>Eitem 4.4 a 9 – Polisi Buddsoddi</u> Trafodwyd a chytunwyd i argymhell i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr drosglwyddo cyfrifoldeb polisi buddsoddi'r Coleg i'r Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol. Byddai modd i'r Pwyllgor Archwilio a Risg arolygu'r polisi.</p>	Argymhell i'r BC bod cyfrifoldeb polisi buddsoddi yn cael ei drosglwyddo i'r PCDC	20 Mawrth 2019
4. Llythyr Grant Llywodraeth Cymru	4.1 Adroddwyd nad oedd Llythyr Grant Llywodraeth Cymru wedi dod i law.		
5. Penodi Archwilwyr Mewnol o 2019/20 (Eitem 6)	<p>5.1 Adroddwyd yn dilyn cyfweiliad bod yr Ysgrifennydd, y Cofrestrudd Gareth Eyres yn argymhell i'r pwyllgor bod y Coleg yn penodi cwmni TIAA fel archwilwyr mewnol y Coleg am gyfnod o 3 blynedd o 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2022.</p> <p>5.2 Cafwyd trafodaeth lawn ar y broses cyfweld; gallu'r cwmni i ddarparu gwasanaeth trwy gyfrwng y Gymraeg; gwerth am arian; ac ansawdd y gwasanaeth. Nodwyd siom bod cyn lleied o ymgeiswyr.</p> <p>5.3 Ymataliodd William Callaway a Peter Curran o'r penderfyniad a chytunwyd i gyflwyno'r argymhelliad i'r</p>	Argymhell penodi cwmni TIAA i'r BC	20 Mawrth 2019

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>Bwrdd Cyfarwyddwyr ar gyfer cymeradwyaeth ar 20 Mawrth 2019.</p> <p>5.4 Cyflwynodd y Cofrestrydd ddrafft o fesuryddion perfformiad ar gyfer yr archwilwyr mewnol.</p> <p>5.5 Yn ystod y drafodaeth nodwyd pwysigrwydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • amserlen priodol o ran nifer dyddiau ar gyfer archwiliad, derbyn adroddiad ar gyfer ymateb swyddogion, trefnu cyfieithad a'i gylchredeg i'r pwyllgor • ansawdd a gwerth ychwanegol yr archwiliad dros nifer y dyddiau • argymhellion ychwanegol pan yn derbyn sicrwydd sylweddol mwy nag unwaith ar ôl sawl cylch archwilio • arolwg blynyddol gan y swyddogion a'r pwyllgor <p>5.6 Cytunwyd i ychwanegu'r sylwadau i'r drafft ac ail gyflwyno'r mesuryddion perfformiad i'r cyfarfod nesaf.</p>	Ail-ddrafftio'r mesuryddion perfformiad ac ail-gyflwyno (DT)	22 Mai 2019
6. Archwilwyr Mewnol: Llywodraethiant	<p>6.1 Cafwyd adroddiad llafar ar adroddiad Llywodraethiant gan Carol Warburton.</p> <p>6.2 Eglurwyd mai papur safbwynt ar gyfer yr archwilwyr mewnol newydd yw'r adroddiad a byddai modd ei gyflwyno i'r cyfarfod nesaf ynghyd â'r adroddiad blynyddol arferol.</p> <p>6.3 Adroddwyd yr adolygwyd cylchoedd gorchwyl, rhaglenni gwaith a phrosesau gweithredu'r pwyllgorau a nodwyd eu heffeithiolrwydd.</p>	CW i gyflwyno adroddiad Llywodraethiant ac adroddiad blynyddol	31 Mawrth a 22 Mai 2019
7. Archwilwyr Mewnol: Adroddiad ar Reolaeth Cyllidebol (Eitem 7a)	<p>7.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Reolaeth Cyllidebol gan Carol Warburton.</p> <p>7.2 Eglurwyd bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar sicrhau bod prosesau a mesurau rheoli digonol mewn lle ar gyfer materion cyllidebau, er mwyn adrodd nôl yn</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>effeithiol yn unol ag amcanion Llywodraeth Cymru. Adroddwyd y dilynwyd yr un broses ag adolygiad Rhagfyr 2017.</p> <p>7.3 Datganwyd sicrwydd sylweddol gan yr adolygiad.</p> <p>7.4 Trafodwyd rhai man sylwadau sydd wedi'u gweithredu gan y swyddogion a nodwyd eu bod yn parhau yn yr adroddiad hwn er gwybodaeth i'r archwilwyr mewnol newydd.</p> <p>7.5 Nodwyd cywiriad i'r meini prawf asesiad risg yn yr adroddiad Saesneg.</p>		
<p>8. Archwilwyr Mewnol: Adroddiad caffael a gwariant (Eitem 7b)</p>	<p>8.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Gaffael a Gwariant gan Carol Warburton.</p> <p>8.2 Eglurwyd bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar sicrhau bod gweithdrefnau a phrosesau digonol yn eu lle i gefnogi a hwyluso caffael effeithiol ac effeithlon ar nwyddau a gwasanaethau; ac effaith y broses ar allu unigolion awdurdodedig yn y sefydliad i hwyluso rheolaeth gyllidebol briodol.</p> <p>8.3 Eglurwyd yn benodol bod prosesau mewn lle i drafod yn y pwyllgor hwn tendrau sy'n gwro o'r arfer neu diffyg tendrau; a bod rhai risgiau yn parhau yn yr adroddiad er gwybodaeth i'r archwilwyr mewnol newydd.</p> <p>8.4 Datganwyd sicrwydd sylweddol gan yr adolygiad.</p>		
<p>9. Archwilwyr Mewnol: Adroddiad cyflogres a threuliau (Eitem 7c)</p>	<p>9.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar y Gyflogres a Threuliau gan Carol Warburton.</p> <p>9.2 Eglurwyd bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar sicrhau bod y gweithdrefnau cywir yn eu lle i sicrhau prosesau gyflogres a threuliau cadarn yn unol â pholisiau mewnol a deddfwriaethol.</p> <p>9.3 Datganwyd sicrwydd sylweddol gan yr adolygiad.</p> <p>9.4 Trafodwyd arfer da awdurdodi treuliau a sicrhawyd yr</p>		

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	aelodau bod trefn wedi'i osod lle nad yw swyddogion yn awdurdodi treuliau ei gilydd.		
10. Archwilwyr Mewnol: Adroddiad Grantiau Pynciol (Eitem 7ch)	<p>10.1 Cyflwynwyd crynodeb o adroddiad yr Archwilwyr Mewnol ar Grantiau Pynciol gan Carol Warburton.</p> <p>10.2 Eglurwyd bod yr adolygiad yn canolbwyntio ar effeithlonrwydd y prosesau sy'n gysylltiedig â'r cynllun newydd o ddyfarnu Grantiau Pynciol.</p> <p>10.3 Casglwyd bod gan y Coleg reolaeth effeithiol ar y meysydd risg yn y broses dyfarnu grantiau pynciol.</p> <p>10.4 Nodwyd yr angen ar gyfer archwiliad llawn i'r maes wrth i'r broses aeddfedu.</p>	Archwiliad ar y grantiau pynciol	I'w nodi yn amserlen yr archwilwyr mewnol newydd
11. Y Gofrestr Risg (Eitem 8)	<p>11.1 Rhoddwyd cyflwyniad gan y Rheolwr Gweithredu ar y Gofrestr Risg. Darparwyd adroddiad ar y diweddariadau i'r Gofrestr Risg ers y cyfarfod diwethaf.</p> <p>11.2 Rhoddwyd eglurhad pellach ar risg ehangu rôl y Coleg i addysg bellach. Mae'r risg yn cael ei drafod yn rheolaidd gan y swyddogion ac mae adnoddau wedi'u hadnabod erbyn hyn.</p> <p>11.3 Trafodwyd risgiau allanol sy'n effeithio ar y sector addysg uwch o ran newidiadau cyllidol o fewn prifysgolion. Eglurwyd mai risg i'r sector oedd hwn yn benodol gyda sgîl-ffaith andwyol posib i'r Coleg. Adroddwyd bod y Coleg yn cynnal cyfarfodydd cynllunio lefel uchel yn flynyddol i drafod y materion hyn a bod y Prif Weithredwr yn ymdrin â materion a allai gael eu hystyried yn ddifrifol. Adroddwyd ymhellach bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd yn flynyddol ar y cyfarfodydd cynllunio.</p> <p>11.4 Yn dilyn trafodaeth derbyniwyd y diweddariadau i'r gofrestr i'w gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr i'w ystyried yn llawn.</p>	Cofrestr Risg i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr	20 Mawrth 2019

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
12. Polisi cronfeydd wrth gefn (Eitem 9)	<p>12.1 Cyflwynwyd polisi cronfeydd wrth gefn Coleg gan y Cofrestrydd.</p> <p>12.2 Nodwyd bod y Coleg yn cynnal y cronfa benodedig hon ar gyfer amgylchiadau difrifol. Ers cyllido'r Coleg yn uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru nid oes disgwyl i lefel y cronfeydd wrth gefn newid yn sylweddol.</p> <p>12.3 Trafodwyd trosglwyddo cyfrifoldeb y polisi cronfeydd wrth gefn pan adolygir cylch gorchwyl y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol yn nhymor yr hydref.</p> <p>12.4 Derbyniwyd y polisi i'w gyflwyno i'r Bwrdd Cyfarwyddwyr ar 20 Mawrth 2019.</p>	<p>Trosglwyddo cyfrifoldeb polisi cronfeydd wrth gefn i'r PCDC</p> <p>Cyflwyno polisi cronfeydd wrth gefn i'r BC</p>	<p>Tymor yr hydref 2019</p> <p>20 Mawrth 2019</p>
13. Adroddiad cydymffurfio	<p>13.1 Derbyniwyd adroddiad cydymffurfio.</p> <p>13.2 Nodwyd nad oedd unrhyw geisiadau ac ymatebion rhyddid gwybodaeth; achosion o doriadau data; ceisiadau o wrthrych data; achosion o chwythu'r chwiban; rhoddion a lletygarwch; a thendrau sy'n gwyr o'r arfer.</p> <p>13.3 Trafodwyd yr angen i nodi unrhyw letygarwch a wrthodwyd yn ogystal â lletygarwch a dderbyniwyd. Adroddwyd nad oedd achosion o'r fath yn y gofrestr a gedwir.</p>		
14. Cynllun gwaith y pwyllgor	<p>14.1 Derbyniwyd cynllun gwaith y pwyllgor ar gyfer 2019/20.</p> <p>14.2 Argymhellwyd</p> <ul style="list-style-type: none"> • ychwanegu gweithredu argymhellion i bob cyfarfod • symud derbyn llythyr Grant y Llywodraeth, a hynny er gwybodaeth, i dymor yr haf. <p>14.3 Trafodwyd materion Llywodraethiant a sicrhawyd yr aelodau bod y datganiadau priodol yn cael eu cyhoeddi yn yr Adroddiad Ariannol blynyddol a gyflwynir i'r pwyllgor ac yn Adroddiad Blynyddol y Coleg a gyflwynir</p>	<p>Diwygio'r cynllun gwaith (NB)</p>	<p>Cyn diwedd Chwefror 2019</p>

Eitem	Prif bwyntiau trafod	Pwyntiau Gweithredu	Cyfnod amser
	<p>i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.</p> <p>14.4 Trafodwyd cryfhau strwythurau'r pwyllgor ac atgoffwyd yr aelodau gan y Prif Weithredwr bod angen cadw cymesuredd o ystyried adnoddau'r Coleg. Cytunwyd i ystyried proses adolygu effeithiolrwydd y pwyllgor yn y cyfarfod nesaf.</p>	Eitem trafod i'r cyfarfod nesaf	22 Mai 2019
15. Dyddiadau a lleoliadau'r cyfarfodydd nesaf	<p>15.1 Nodwyd dyddiadau'r cyfarfodydd nesaf yng Nghaerdydd:</p> <ul style="list-style-type: none"> • 22 Mai 2019, 10.00-12.30 • 23 Hydref 2019, 10.00-12.30 • 4 Mawrth 2020, 10.00-12.30 <p>15.2 Diolchwyd i Osian Rhys am gyfieithu ar y pryd.</p>		